



# COOK BOOK





## Cyflwyniad

Mae coginio yn sgil bywyd sylfaenol y gall unrhyw un ei dysgu. Mae'n sgil sy'n amlbwrrpas ar gyfer pob chwaeth a phwrs arian. Unwaith eich bod yn cyfarwyddo â'r broses, byddwch yn sylweddoli y gallwch wneud unrhyw beth o'ch hoff gludfwyd i fwyd y gallech ei roi fel anrheg. Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon (yn ystod pandemig Covid-19), wedi ein gweld yn treulio mwy a mwy o amser yn y cartref. Mae'n gyfle perffaith i arbrofi gyda resipis newydd ac i ddysgu ychydig mwy am sgiliau yn y gegin.

Nod Area 43 yw i'ch tywys, annog a'ch grymuso, fel eich bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eich galluoedd yn y gegin ac i feithrin y sgiliau bywyd hynny, yn ogystal â rhannu rhai sgiliau yn y gegin!

Wrth i ni greu'r llyfr hwn, rydym wedi ein hysbrydoli gan rhai o'ch awgrymiadau resipi a'ch gofynion. Rydym wedi cysylltu gyda phobl ifanc trwy gyfres o sesiynau coginio ar y cyd gan Area 43 fesul tiwtorialau sy'n darparu cyfleoedd i ddysgu rhai sgiliau coginio newydd.

Mae'r fideos yma ar gael ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae coginio'n hwyl, ewch ati!

## Introduction

Cooking is a basic life skill that anyone can learn. It is a skill that is versatile enough for all tastes and budgets. Once you get the hang of it, you will realise you can make anything from your favourite takeaways to food that you could give as a gift.

This last year (during the Covid-19 pandemic), has seen us spending more and more time at home. It is the perfect opportunity to try out some new recipes and to learn a few more skills in the kitchen.

Area 43's aim is to guide, encourage and empower you, so that you feel more confident in your abilities in the kitchen and to nurture those life skills, as well as sharing some cooking tips!

In the creation of this book, we have been inspired by some of your recipe suggestions and requests. We have connected with young people through a series of 'Area 43 cook along' sessions with tutorials which provide opportunities to learn some new cooking skills.

These videos are available on our social media channels. Cooking is fun, have a go!

## Smwddis / Smoothies

Mae smwddis yn snac hawdd i nifer ohonom sy'n chwilio am rywbedd cyflym ac iach. Pa un aia a ydych am frecwast cyflym neu snac ddi-ffwdan, mae smwddis yn ddewis gwych sy'n gallu bodloni'r bwytawyr mwyaf ffwdanus.

Smoothies are a go-to for many of us looking for something quick and healthy. Whether you're in need of a grab-and-go breakfast or a fuss-free snack, smoothies are a great option that can satisfy even the pickiest of eaters.



## **Smwddi'r Haul / Sunshine Smoothie**

Mae'r smwddi haul yma fel fitaminau lluosog mewn gwydr. Gan gyfuno oren, moronen a seleri, mae'n taro'r cydwyssedd perffaith rhwng ffrwythau a llysiau gyda'i gilydd. Tra bod y ffrwythau'n rhoi'r holl sudd melys y byddech yn ei ddisgwyl gan smwddi, mae'r llysiau'n hybu'r ffibr felly rydych yn llai tebygol o brofi sbigyn sydyn mewn siwgr gwaed fel rhai amrywiaethau mwy melys.

### **Cynhwysion:**

- 1 oren, wedi ei bilio a'i dorri'n gwrs
- 1 moronen fawr, wedi ei philio a'i thorri'n gwrs
- 2 ddarn o seleri a'u torri'n gwrs
- 50g o fango wedi ei dorri'n gwrs
- 200ml o ddŵr

### **Cyfarwyddiadau:**

Rhowch yr oren, y foronen, seleri a mango mewn cymysgydd, rhowch ddŵr ar eu pen, yna eu chwyrlio hyd nes eu bod yn feddal.

This sunshine smoothie is like a multivitamin in a glass. Combining orange, carrot, celery, and mango, it strikes the perfect balance between fruit and vegetables in a blend. While the fruits provide all the sweet, juiciness you'd expect from a smoothie, the vegetables boost the fibre so you're less inclined to experience a sharp spike in blood sugar like some sweeter varieties.

### **Ingredients:**

- 1 orange, peeled and roughly chopped
- Large carrot, peeled and roughly chopped
- 2 sticks of celery, roughly chopped
- 50g mango, roughly chopped
- 200ml water

### **Instructions:**

Put all the orange, carrot, celery and mango in the blender, top up with water, then blitz until smooth.



## **Smwddi Banana ac Aeronen / Banana and Berry Smoothie**

Mae'r cymsgedd o fananas aeddfed perffaith ac iogwrt yn rhoi cyfuniad moethus trwchus a hufenog ei flas a'i wead llyfn melfedaidd.

### **Cynhwysion:**

- 7os o fefus (wedi eu sleisio)
- 1 banana aeddfed
- 4os o iogwrt plaan, groeg neu fefus
- 2fl os o ddwîr
- 6fl os o laeth gwyrdd
- 1 llwyf fwrrd o sudd lemwn

### **Cyfarwyddiadau:**

Torrwch y mefus a banana a'u gosod mewn cymsgydd. Ychwanegwch ddwîr, iogwrt, llaeth a sudd lemwn a'u prosesu hyd nes eu bod yn feddal.

**\*Awgrym** – Mae llysiau wedi eu rhewi'n berffaith ar gyfer smwddis, gallwch rewi ffrwythau wedi eu torri'n barod eich hun neu brynu bagiau sydd eisoes wedi eu rhewi'n barod o'r archfarchnad. Gallwch ychwanegu ffrwythau wedi eu rhewi yn syth i'ch cymsgydd smwddi.

The blend of perfectly ripe bananas and yogurt gives this decadently thick and creamy combination its velvety smooth taste and texture.

### **Ingredients:**

- 7oz strawberries (sliced)
- 1 ripe banana
- 4oz plain, greek or strawberry yogurt
- 2fl oz water
- 6fl oz semi skimmed milk
- 1 tablespoon lemon juice

### **Instructions:**

Chop the strawberries and banana and put into a blender. Add the water, yogurt, milk and lemon juice and process until smooth.

**\*Tip** – Frozen fruit are perfect for smoothies, you can freeze chopped up fruit yourself or buy pre-frozen bags from the supermarket. You can add frozen fruit directly into your smoothie blender.



# Tŵr Pancos Americanaidd / American Pancake Stack

Ar gyfer 8 Amser paratoi: 15 munud  
Amser coginio: 20 munud

## Cytew Pancos:

- 200g o flawd codi
- 1½ llwy de o bowdwr codi
- 1 Llwy fwrdd o siwgr mân
- 3 wŷr mawr
- 25g o fenyn wedi ei doddi
- 200ml o laeth
- Pinsiad o halen
- 2 lwy fwrdd o olew blodyn yr haul

## Cyfarwyddiadau:

1. Mewn powlen gymysgu maint canolig, cymysgwch y cynhwysion sych, sef blawd codi, powdwr codi, siwgr mân a halen
2. Mewn jwg, chwisgiwch y cynhwysion gwlyb – yr wyau, llaeth a'r menyn wedi ei doddi
3. Ychwanegwch y cymysgedd gwlyb i'r cymysgedd sych, yna chwisgiwch hyd nes ei fod yn gytew meddal
4. Gwresogwch 1 llwy de o olew mewn padell ffrio gwrthlud, yna rhowch un lletwad o gytew i'r badell a'i goginio am 2 funud hyd nes ei fod yn euraidd frown yna trowch y bancosen a choginiwch am 2 funud arall hyd nes ei bod yn euraidd frown ac wedi codi ychydig.
5. Ailadroddwch y broses hyd nes eich bod wedi defnyddio'r cytew cyfan
6. Gadewch y pancakes i oeri
7. Rhowch unrhyw beth ar y top!

(Rhai cyfuniadau o haenau gwych yw – Siwgr a lemwn, banana, haenen siocled a hufen chwsg, aeron, hufen, a syrp masarnen neu hyd yn oed yn steil Americanaidd go iawn – Syrp masarnen a bacwn creisionllyd)

(Some great topping combos are – Sugar and lemon, banana, chocolate spread and whipped cream, berries, cream, and maple syrup or even the true American style – Maple syrup and crispy bacon!)

Makes 8 Prep: 15 mins  
Cook: 20 mins

## Pancake batter:

- 200g self raising flour
- 1½Tsp baking powder
- 1 Tbsp caster sugar
- 3 x large eggs
- 25g melted butter
- 200ml milk
- Pinch of salt
- 2 x Tbsp sunflower oil

## Instructions:

1. In a medium sized mixing bowl, combine the dry Ingredients - SR Flour, baking powder, caster sugar and salt.
2. In a jug, whisk the wet Ingredients – Eggs, milk, and melted butter.
3. Add the wet mix to the dry mix then whisk until a smooth batter.
4. Heat up 1 tsp of oil in a non-stick frying pan, then pour one ladle of the batter into the pan and cook for 2 mins until golden brown then flip the pancake over and cook for another 2 minutes until golden brown and slightly risen.
5. Repeat this process until you have used up all the batter.
6. Leave the pancakes to cool.
7. Top with whatever you like!



## Caws Macaroni Cheese

Dyma fersiwn sydyn: dim saws caws, ond swm anferthol hyfryd o gaws, wedi ei gymysgu gydag wy a llaeth anwedd. Blasus.

### Cynhwysion:

- 250g o facaroni
- 250g o gaws cheddar aeddfed (neu red leicester neu gymysgedd o'r ddau)
- 250 ml o laeth anwedd
- 2 wŷ mawr
- Peth nytmeg wedi ei gratio
- Halen (i roi blas)
- Pupur (i roi blas)

### Cyfarwyddiadau:

1. Cynheswch y ffwrn i 220°C/200°C Ffan/marc nwy 7/425°F. Coginiwch y macaroni yn ôl y cyfarwyddiadau, diferwch ac yna ei ddychwelyd i'r sosban gynnes.
2. Tra bo'r pasta yn coginio, rhowch y caws, llaeth anwedd, wyau a nytmeg mewn prosesydd a'u cymysgu'n dda. Neu gratiwch y caws a chymysgwch y cyfan â llaw.
3. Arllwyswch y saws caws dros y macaroni, trowch yn dda, a sesnwch gyda halen a phupur er mwyn rhoi blas.
4. Rhowch y cyfan mewn powlen 25.5 cm/10 modfedd o gylch (un llydan a bas sydd orau) a'i bobti mewn ffwrn gynnes iawn am oddeutu 10-15 munud, neu hyd nes ei fod yn bybylu neu'n pothellu ar y top.

This is the shortcut version: no cheese sauce, but a gorgeously huge amount of cheese, bound with egg and evaporated milk. Yum.

### Ingredients:

- 250g macaroni
- 250g mature cheddar (or red leicester or mix of both)
- 250ml evaporated milk
- 2 large eggs
- Grating of fresh nutmeg
- Salt (to taste)
- Pepper (to taste)

### Instructions:

1. Preheat the oven to 220°C/200°C Fan/gas mark 7/425°F. Cook the macaroni according to the packet, drain and then put back into the hot pan.
2. While the pasta is cooking, put the cheese, evaporated milk, eggs and nutmeg in a processor and blitz to mix. Or grate the cheese and mix everything by hand.
3. Pour the cheese sauce over the macaroni, stir well, and season with salt and pepper to taste.
4. Tip into a 25.5 cm/10 inch-diameter dish (wide and shallow is best) and bake in the very hot oven for about 10-15 minutes, or until it is bubbling and blistering on top.



# Croen Tato gyda Bacwn, Caws a Shibwns

## Cynhwysion:

- 4 taten bobî fawr
- 1 llwy fwrdd o olew olewydd
- Halen a phupur
- 100g o gaws aeddfed cheddar wedi ei gratio
- 4 shibwnsyn (wedi eu sleisio)
- 2 llwy de o fwstard grawn cyflawn
- 1 llwy fwrdd o fenyn
- 4 tafell o facwn mwg

## Cyfarwyddiadau:

1. Cynheswch y ffwrn ymlaen llaw i nwy 7, 220°C, ffan 200°C. Gyda fforc, prociwch y tato drostynt. Rhwbiwch yr olew dros y crwyn, yna rhwbiwch gydag ychydig halen. Rhowch y tato ar hambwrdd bobî a'u pobi am 1 awr, a'u troi hanner ffordd er mwyn eu coginio'n wastad hyd nes eu bod yn dyner pan fyddwch yn eu pigo â sgiwer neu gyllell finiog.
2. Tynnwch o'r ffwrn ac yn ofalus, torrwch y tato poeth mewn hanner i ganiatau i'r stem i ddianc. Oerwch ychydig yna gyda llwy, tynnwch y rhan fwyaf o'r daten i bowlen gymsgu fawr, gan fod yn ofalus i gadw'r croen yn gyfan.
3. Ychwanegwch y Cheddar, shibwns, mwstard, a menyn. Cymysgwch gyda'i gilydd yn dda ond ddim yn hollol feddal.
4. Mewn padell ffrio, coginiwch y tafelli bacwn hyd nes eu bod ychydig yn frown, yna tynnwch oddi ar y gwres. Ar fwrdd torri, torrwch y bacwn i ddarnau bach a'u troi yn y gymsgedd o dato.
5. Yn ofalus, gosodwch y tato pwtsh yn ôl i'w crwyn gyda llwy a defnyddiwr yr holl dato pwtsh.
6. Dychwelwch i'r ffwrn a'u pobi am 15 munud hyd nes eu bod ychydig yn frown ac yn euraidd ar y top. Gweinwch yn syth neu ychwanegwch haenau ychwanegol, fel y dymunwch.

**Awgrym:** Mae'r rhain yn fendigedig ar ben eu hunain, ond gallwch osod unrhyw gynhwysion blasus ar eu pen. Gallech hefyd arbrofi gyda llenwadau gan ddefnyddio unrhyw gynhwysion sydd efallai gennych ar ôl yn yr oergell.



# Bacon, Cheese and Spring Onion Loaded Potato Skins

## Ingredients:

- 4 large baking potatoes
- 1 tbsp olive oil
- Salt and pepper
- 100g mature cheddar cheese, grated
- 4 spring onions (sliced)
- 2 tsp wholegrain mustard
- 1 tbsp butter
- 4 smoked bacon rashers

## Instructions:

1. Preheat the oven to gas 7, 220°C, fan 200°C. Prick the potatoes all over with a fork. Rub the oil over the skins, then rub with a little salt. Put the potatoes on a baking tray and bake for 1 hr, turning halfway through to cook evenly until completely tender when pierced with a skewer or sharp knife.
2. Remove from the oven and carefully cut the hot potatoes in half to allow the steam to escape. Cool slightly, then scoop out most of the flesh into a large mixing bowl, being careful to keep the skins intact.
3. Add the Cheddar, spring onions, mustard, and butter. Mash together until thoroughly combined but not completely smooth.
4. In a frying pan, cook the bacon rashers until lightly browned, then remove from heat. On a chopping board, cut the bacon into small pieces and stir into the mashed potato mixture.
5. Carefully spoon the mashed potato back into the potato skins and heap up until all the potato mash has been used.
6. Return to the oven and bake for 15 mins until lightly browned and golden on top. Serve straightaway or add extra toppings, as you like.

**Tip:** These are delicious on their own, but you can top the baked potatoes with any tasty ingredients you like. You could also experiment with the filling by using what ingredients you may have left over in the fridge.



## **Salad Pasta Hawdd mewn pum cam**

**Mae salad pasta yn hawdd i'w wneud.** Mae'r cynhwysion yn syml ac yn hyblyg, felly gallwch wneud hwn pan fydd gennych salad/llysiau/caws ar ôl yn yr oergell. **Hefyd, ni fydd hyn yn cymryd mwy nag 20 munud i'w baratoi o'r dechrau tan y diwedd. A dyw hynny ddim yn rhy ddrwg pan fyddwch yn gallu ei gadw yn yr oergell am hyd at 5 diwrnod!**

- Pasta:** Mae'n hanfodol, ac mae modd defnyddio unrhyw fath. Rydw i'n hoff o basta sydd ag awch, nid y math sy'n soeglyd. Dyna pam y dylech ddewis siapau pasta calonnog fel penne, fusilli, rotini, a farfalle (tei bô). Mae ganddyn nhw hefyd fantais o nifer o dyllau a chornelau, sy'n dal y dresin a'r darnau o gaws. Gall siapiau eraill weithio hefyd.
- Llysiau:** Mae amrywiaeth o llysiau / salad yn ychwanegu lliw a chreinsio at y salad. Fe allech chi ychwanegu pupurau, ciwymbr, courgettes, moron wedi'u gratio, tomatos ceirios wedi'u haneru, shibwns tenau, a dail letys. Gallwch chi ychwanegu llysiau eraill, hefyd, ac arbrofil Mae ychwanegu llond llaw o ba bynnag berlysiau ffres, sydd gennych wrth law yn syniad rhagorol hefyd. Gorau oll po fwyaf o liw a blas!
- Caws:** Gallwch ychwanegu unrhyw gaws i'ch salad. Mae caws cheddar gratiog, mozzarella a chaws feta oll yn gweithio'n dda. Ar gyfer salad pasta fegan, gadewch y caws allan.
- Blasau Ychwanegol:** Fy hoff beth am salad pasta yw ychwanegu cynhwysion cyfrinachol ychwanegol sy'n gwneud iddo ddisgleirio. Mae olewydd yn ychwanegu blas cryf a llawer o flas. Mae llysiau wedi'u piclo yn hwyl, ceisiwch ychwanegu ychydig o winwns wedi'u piclo neu rai jalapenos am bach o gic ychwanegol. Os nad ydych chi'n mynd am salad pasta llysieuol, gallwch ychwanegu llond llaw o salami wedi'i dorri, pepperoni, twrci, ham neu bysgod tun. Cymaint o opsiynau!
- Ychwanegwch ddresin!** (Fe allech chi ddewis rhywbeth mor syml ag olew olewydd, sudd lemwn, halen a phupur neu hyd yn oed mayonnaise). Mae llawer o siopau'n gwerthu dresin salad wedi'i wneud ymlaen llaw ac nid ydynt mor ddrud â hynny ychwaith. Gall pesto fod yn ychwanegiad gwych i salad pasta.

**\*Awgrym** – Ceisiwch ddefnyddio cymaint o liwiau â phosib yn eich salad, y mwyaf y gorau, meddyliwch am yr enfys! Bydd hyn yn eich helpu i greu'r salad mwyaf bendigedig, blasus ac iach.

**\*Awgrym** – Gall y defnydd o besto fel dresin fod yn ychwanegiad gwych.

## **Easy Pasta Salad in five steps**

**Pasta salad is easy to make.** The Ingredients are simple and flexible, so you can make this when you have left over salad/veg/cheese in the fridge. **Plus, you are looking at under 20 minutes from start to finish. Not too bad, especially when you can keep it in the fridge for up to 5 days!**

- 1. Pasta:** Pasta is essential, but the type of pasta you use does matter. I like the pasta to bite back a bit and hate it when it turns mushy. That's why you should choose hearty pasta shapes like penne, fusilli, rotini, and farfalle (bow tie). They also have the advantage of lots of nooks and crannies, which trap the dressing and bits of cheese. Other shapes can work, too.
- 2. Vegetables:** An assortment of veggies/salad add colour and crunch to the salad. You could add peppers, cucumber, courgette, grated carrot, halved cherry tomatoes, thinly sliced spring onion, and lettuce leaves. You can add other vegetables, too, experiment! Adding a handful of whatever fresh herbs, you have on hand is an excellent idea, too. The more colour and flavour, the better!
- 3. Cheese:** You can add any cheese to a salad. Grated cheddar, mozzarella and feta cheese all work well. For a vegan pasta salad, leave the cheese out.
- 4. Flavourful Extras:** My favourite part about pasta salad is adding extra secret ingredients / that make it shine. Olives add tanginess and a lot of flavour. Pickled vegetables are fun, try adding some pickled onions or some jalapenos for little extra kick. If you aren't going for a vegetarian pasta salad, you can add a handful of chopped salami, pepperoni, turkey, ham, or tinned fish. So many options!
- 5. Add a dressing!** (You could choose something as simple as olive oil, lemon juice, salt & pepper or even just mayonnaise). Lots of shops sell pre-made salad dressings that aren't that expensive too. Pesto can be a great addition to a pasta salad.

**\*Tip** – Try and get as many colours in your salad as possible, the more the better, think of the rainbow! This will help you make the most vibrant, tasty and healthy salad ever.

**\*Tip** – Using pesto as a dressing makes an excellent addition.



# Pizza Olwynion Pin gyda Thoes Cartref

Mae Pizza Olwynion Pin yn bopeth rydych chi'n ei dwlu am pizza wedi'i rolio a'i bob i berfeithrwydd. Gellir storio'r toes yn y rhewgell pan fyddwch yn crefu am bizza yn y dyfodol, does dim yn well na pizza cartref!

## Cynhwysion Toes Pizza:

- 280g o flawd
- 1 llwy fwrdd o olew olewydd
- 1/4 llwy de o halen
- 1 llwy fwrdd o siwgr
- 2 llwy de o ferem sych cyflym
- 125g o ddŵr claear

## Saws Pizza:

- 2 llwy fwrdd o biwrî
- 3 llwy fwrdd o basata tomato
- 1 llwy de o biwrî garleg neu glof wedi ei gratio
- 1 llwy de o oregano sych
- 1 llwy fwrdd o olew olewydd
- Halen a phupur

## Haenau Pizza:

- 5os o saws pizza, neu fwy fel sydd ei angen
- 125g o fosarela wedi ei falu, neu fwy fel sydd ei angen
- Haenau opsiynol: Pepperoni a llysiau

## Cyfarwyddiadau:

1. Mewn powlen, cymysgwch y piwrîs, passata, oregano, olew olewydd ynghyd, yna eu sesno â halen a phupur, rhowch naill ochr.
2. Haenwch ddalen bob i fawr gyda phapur memrwn a rhowch naill ochr.
3. Dechreuwch trwy ychwanegu blawd, olew a halen i'r prosesydd bwyd, a'u prosesu am 30-45 munud hyd nes eu bod wedi cyfuno.
4. Mewn powlen fach, cymysgwch eich siwgr a dŵr cynnes, a'u troi nes bod y siwgr yn toddi.
5. Gwasgarwch y burum yn fân a gadewch iddo eistedd nes bod y top yn edrych yn ewynnog am oddeutu 5-7 munud.
6. Trowch eich prosesydd bwyd ymlaen, ychwanegwch y gymysgedd burum. Parhewch i brosesu nes bod pêl toes yn ffurfio, gallai gymryd hyd at 1 munud.
7. Gosodwch flawd ar arwyneb glân a thylino'ch toes nes ei fod yn llyfn ac yn elastig, bydd y toes yn ludio iawn wrth ei dynnu o'r prosesydd bwyd.
8. Rhowch olew mewn powlen fawr ac ychwanegwch eich toes, ei orchuddio â lapio plastig a'i roi o'r neilltu mewn lle cynnes. Bydd hyn yn cymryd oddeutu 45 munud i godi a dyblu mewn maint.
9. Rholiwch y toes allan ar arwyneb glân â blawd arno, yna ei rolio i mewn i betryal, tua 14 x 8- modfedd.
10. Cynheswch y ffwrn i 220°C.
11. Gwasgarwch y saws pizza gan adael 1/4-modfedd o ymyl ar hyd yr ochrau. Rhowch y pepperoni dros y saws a'i haenu gyda chaws mozzarella.
12. Dechreuwch rolio'r toes ar yr ochrau hir, gan ddod i ben ar yr ymyl glân, a phinsiad yn gorffen i selio. Torrwch y toes yn 14 darn a'u rhoi ar ddalen bob i pharatoi. Os yw top eich rhoiau'n edrych yn anwastad, pwyswch yn ysgafn arny'n nhw.
13. Pobwch am 13- 14 munud, hyd nes eu bod yn euraidd ac yn greisionllyd. Mwynhewch.

(Byddai'r resipi hwn yn gweithio'n wych pe fydddech yn newid y saws pizza am fenyn garleg!)

# **Pizza Pinwheels with Homemade Dough**

Pizza Pinwheels are everything you love about pizza rolled up and baked to perfection. The dough can be stored in the freezer for future pizza cravings, nothing beats homemade pizza!

## **Pizza Dough Ingredients:**

- 280g flour
- 1 tbsp olive oil
- 1/4 tsp salt
- 1 tbsp sugar
- 2 tsp instant dried yeast
- 125g lukewarm water

## **Pizza Sauce:**

- 2 Tbsp tomato puree
- 3Tbsp tomato passata
- 1 Tsp garlic puree or 1 grated clove
- 1 Tsp dried oregano
- 1 Tbsp olive oil
- Salt and pepper

## **Haenau Pizza Toppings:**

- 5oz pizza sauce, or more as needed
- 125g shredded mozzarella, or more as needed
- Optional toppings: Pepperoni & veggies

## **Instructions:**

1. In a bowl mix together the purees, passata, oregano, olive oil and season with salt and pepper, set aside.
2. Line a large baking sheet with parchment paper and set aside.
3. Start by adding flour, oil, and salt to a food processor, then process for 30-45 seconds till combined.
4. In a small bowl combine your sugar and warm water, stir till sugar dissolves.
5. Sprinkle in your yeast and let sit till the top looks foamy about 5-7 minutes.
6. Turn your food processor back on, add the yeast mixture. Continue to process until dough ball forms, could take up to 1 minute.
7. Flour a clean surface and knead your dough until smooth and elastic, the dough will be very sticky when removing it from the food processor.
8. Oil a large bowl and add in your dough, cover with plastic wrap and set aside in a warm place. This will take about 45 minutes to rise and double in size.
9. Roll dough out on a clean floured surface, roll into a rectangle, about 14 x 8- inches.
10. Preheat the oven to 220°c.
11. Spread the pizza sauce leaving a 1/4-inch border along the edges. Arrange pepperoni over the sauce and sprinkle with mozzarella cheese.
12. Start rolling up the dough on the long sides, ending at the clean edge, pinch ends to seal. Cut dough into 14 even rounds and place on a prepared baking sheet. If the top of your rolls looks uneven gently press down on them.
13. Bake for 13- 14 minutes, until golden and crispy. Enjoy

(This recipe would work great if you swapped the pizza sauce for garlic butter!)

# Ffowlyn Deheuol wedi'i Ffrio

## Cynhwysion:

- 4 clun iâr buarth, croen ar yr asgwrn, gydag asgwrn
- 4 coes iâr buarth
- 200ml o laeth enwyn
- 200g o flawd plaen
- 1 llwy de wastad o bowdwr codi
- 1 llwy de wastad o bupur cayenne
- 1 llwy de o baprica mwg twym
- 1 llwy de wastad o bowdwr winwnsyn
- 1 llwy de wastad o bowdwr garlleg
- 2 litr o olew blodyn yr haul

## Cyfarwyddiadau:

1. Cynheswch y ffwrn ymlaen llaw i  $200^{\circ}\text{C}$ .
2. Rhowch y coesau a'r cluniau cyw iâr mewn powlen, arllwyswch y llaeth enwyn, gorchuddiwrch â haenen llyn a rhowch yn yr oergell am 8 awr, fel bod y cyw iâr yn hynod dyner.
3. Mewn powlen fawr, cymysgwch y blawd gyda'r powdr pobi, cayenne, paprica a'r powdrau winwns a garlleg.
4. Tynnwch y cyw iâr allan o'r oergell, yna, un neu ddua ddarn ar y tro, tynnwch ef o'r llaeth enwyn a'i daflu i'r bowlen o flawd nes ei fod wedi'i orchuddio'n dda. Ysgwydwch a'u rhoi ar fwrdd mawr. Gnewch hyn eto gyda'r darnau cyw iâr sy'n weddill.
5. Llenwch badell fawr hyd yr hanner gydag olew - dylai'r olew fod yn 8cm o ddyfrnder, ond peidiwrch byth â llenwi'ch padell fwy na hanner llawn - a'i roi ar wres canolig i uchel. Defnyddiwrch thermomedr i ddweud pryd mae'n barod ( $180^{\circ}\text{C}$ ) neu ychwanegwch ychydig bach o fara ac aros nes ei fod yn troi'n euraid - mae hynny'n arwydd ei fod yn barod i fynd.
6. Unwaith y bydd yr olew yn ddigon poeth, dechreuwch gyda 2 morddwyd - taflwrch nhw yn ôl i'r blawd yn gyflym, yna eu gostwng yn ofalus i'r olew poeth gan ddefnyddio llwy slotiog. Ffriwrch am 5 munud, gan droi hanner ffordd, yna eu tynnu i rac weiren dros hambwrdd pobi.
7. Dewch â thymheredd yr olew yn ôl i fyny, ailadroddwrch y broses gyda'r 2 forddwyd sy'n weddill, yna rhowch yr hambwrdd yn y ffwrn.
8. Ffriwrch y 4 coes mewn un llwyth, yna ychwanegwch at y rac morddwyd yn y ffwrn am 30 munud, neu nes bod yr holl gyw iâr wedi'i goginio drwyddo.

# **Southern Fried Chicken**

## **Ingredients:**

- 4 free-range chicken thighs, skin on, bone in
- 4 free-range chicken drumsticks
- 200 ml buttermilk
- 200 g plain flour
- 1 level teaspoon baking powder
- 1 level teaspoon cayenne pepper
- 1 level teaspoon hot smoked paprika
- 1 level teaspoon onion powder
- 1 level teaspoon garlic powder
- 2 litres sunflower oil

## **Instructions:**

1. Preheat oven to 200°C.
2. Put the chicken legs and thighs in a bowl, pour over the buttermilk, cover with clingfilm and place in the fridge for 8 hours, so the chicken is super-tender.
3. In a large bowl, mix the flour with the baking powder, cayenne, paprika and the onion and garlic powders.
4. Take the chicken out of the fridge, then, one or two pieces at a time, remove from the buttermilk and dunk into the bowl of flour until well coated. Give them a shake, then place on a large board and repeat with the remaining chicken pieces.
5. Just under half fill a large sturdy pan with oil – the oil should be 8cm deep, but never fill your pan more than half full – and place on a medium to high heat. Use a thermometer to tell when it's ready (180°C) or add a tiny amount of bread and wait until it turns golden – that's a sign it's ready to go.
6. Once the oil is hot enough, start with 2 thighs – quickly dunk them back into the flour, then carefully lower into the hot oil using a slotted spoon. Fry for 5 minutes, turning halfway, then remove to a wire rack over a baking tray.
7. Bring the temperature of the oil back up, repeat the process with the remaining 2 thighs, then pop the tray into the oven.
8. Fry the 4 drumsticks in one batch, then add them to the rack of thighs in the oven for 30 minutes, or until all the chicken is cooked through.



## Fajitas Ffowlyn

### (Gan ddefnyddio hac lapió tortilla)

#### Cynhwysion:

- 8 tortila
- 3 brest ffowlyn mawr wedi eu sleisio'n denau
- 1 winwnsyn coch wedi ei sleisio'n denau
- 1 pupur coch wedi ei sleisio'n denau
- 1 pupur melyn wedi ei sleisio'n denau
- Sudd o un lemwn neu leim
- Pot o hufen sur
- 100g o gaws Cheddar
- Cwdyn o letys cymysg
- Jalapenos (opsiynol)

#### Dull:

1. Cynheswch y popty i 200C/180C fan/gas 6 a lapiwch 8 tortila maint canolig mewn ffoil.
2. Cymysgwch y blawd corn, powdr tsili, halen, paprica mwg, siwgr gwyn, powdr winwnsyn, powdwr garlleg, pupur cayenne, ciwmin daear a sinamon mewn powlen.
3. Trowch y bronau cyw iâr wedi'u sleisio'n fân, winwnsyn coch wedi'i sleisio'n fân, pupurau coch a melyn wedi'u sleisio i'r marinâd sbeis.
4. Cynheswch badell ffrio fawr nes ei bod hi'n boeth ac ychwanegwch y cyw iâr a'r marinâd i'r badell.
5. Cadwch bopeth yn symud dros wres uchel am oddeutu 5 munud gan ddefnyddio gefel nes bod yr holl gynhwysion wedi brownio. Os yw'ch padell ffrio yn fach efallai y bydd angen i chi wneud hyn mewn dau lwyth.
6. I sicrhau bod y cyw iâr wedi'i goginio, dewch o hyd i'r rhan fwyaf trwchus a'i rwyo yn ei hanner - os oes unrhyw ran yn parhau i fod yn amrwd, yna parhewch i'w goginio nes ei goginio'n iawn.
7. Rhowch y tortilas yn y popty i gynhesu a'u gweini gyda'r cyw iâr, letys, caws a hufen wedi'u coginio.

#### Sut mae lapió hac

- **Rhowch eich tortila ar fwrrd torri.** Cymrwrch gyllell a gwnewch dorriad o ganol y tortila lawr i'r ymyl.
- **Dychmygwch y tortila yn cael ei rannu i bedwar cwadrant neu gwarteri.** Rhowch gynhwysyn gwahanol mewn i bob cwadrant.
- **Cwadrant 1:** Ffowlyn a phupurau.
- **Cwadrant 2:** Caws.
- **Cwadrant 3:** Hufen sur a Jalapeños.
- **Cwadrant 4:** Letysen.
- **Plygwch y tortila, gan ddechrau o waelod chwith y chwarter,** ei blygu i fyny dros dop yr ochr chwith, yna ei blygu i fyny dros dop yr ochr dde, yna ei blygu i lawr i dde'r gwaelod.
- **Mwynhewch fel ag y mae neu griliwch** mewn gwasgwr panini neu badell.

#### Cymysgedd Sbeislyd Fajita:

- 1 llwy fwrrd o flawd corn
- 2 llwy de o bowdwr tsili
- 1 llwy de o halen
- 1 llwy de o baprica wedi ei fygu
- 1 llwy de o siwgr gwyn
- ½ llwy de o bowdwr wniwn
- ½ llwy de o bowdwr garlleg
- ¼ llwy de o bupur cayenne
- ½ llwy de o ciwmin daear
- 1 llwy de o sinamon

# **Chicken Fajitas**

## **(Using the tortilla wrap hack!)**

